

# Specialist Estates Services



**Introduction from**  
**Neil Davies, Director of**  
**Specialist Estates Services**

This is often the time of year when we reflect on the previous 12 months and celebrate the contributions of those that have gone that extra mile. At the NWSSP Staff Recognition Awards this year, both SES's work in fire safety and property was recognised, as highlighted on page 4.

With respect to fire safety, the full consequences of the Grenfell disaster of 2017 will take many years to unfold but there has already been significant pressure exerted on SES to provide critical fire safety support to help the Welsh Government and NHS Wales deal with some the lessons learnt from the tragedy.

The majority of this work has fallen on the shoulders of Anthony Pitcher, SES's Senior Fire Safety Advisor, and like so many other dedicated estates and facilities staff working across NHS Wales, when called upon has risen to the challenge. Anthony's contribution has not been limited to NHS Wales, he has also been at the forefront of the UK's response to Grenfell, working closely with Government and NHS colleagues from England, Scotland and Northern Ireland to identify work streams and the key actions needed.

But perhaps what marks Anthony's contribution for recognition, is that he was able to provide this critical support in response to a national disaster, whilst maintaining the full range of day to day fire safety services to Welsh Government and NHS Wales for at least six months, without there being a full fire safety team being in place following Gareth Lloyd's move to Hywel Dda University Health Board. Thankfully that situation has now been addressed with the appointment of Stuart Hanger, who has hit the ground running and has already proved himself a fantastic addition to the SES's fire safety team.

Should you require the advice and support of our fire safety team or any of SES's other specialists, a full list of contact numbers are provided on the website.

I hope you enjoy a peaceful and healthy Christmas!  
**Regards, Neil**

[Neil.Davies4@wales.nhs.uk](mailto:Neil.Davies4@wales.nhs.uk) | 02920 905382

## Inside this issue...

**Mechanical Services Seminar**  
**Page 1**

**IHEEM Conference**  
**Page 2**

**NWSSP Staff Recognition Awards**  
**Page 3**

**Staff news**  
**Page 4**

**Technical publications**  
**Page 4**

**History Corner:  
Rookwood Hospital, Llandaff**  
**Page 5**

**SES Quiz!**  
**Page 6**

# Mechanical Services Seminar: *Getting it right*



Our Engineering department held another successful day of sharing knowledge and best practice at their recent Mechanical Services Seminar.

Titled *Getting it right*, the purpose of the day was to provide NHS staff with an opportunity to improve their knowledge and network whilst sharing their working practices. More than 70 delegates from all Welsh health boards travelled to the Royal Welsh Showground in Builth Wells for the seminar.

Head of Engineering at Specialist Estates Services (SES), Simon Russell, set out the agenda before six speakers took to the stage to discuss various topical issues.

First Dave Francis, Clerk of Works (Engineering) at Betsi Cadwaladr University Health Board (BCUHB), who outlined in an interesting way how to bridge the gap between the health board and SES in terms of working together.

SES Performance Standards Engineer, Nigel Baker, gave a thought-provoking presentation on improving co-ordination to ensure successful mechanical and engineering (M & E) installations before handing over to Senior Fire Advisor, Anthony Pitcher, who spoke about the vital importance of fire dampers in the healthcare built environment.

Keith Thompson, AECOM Associate Director (Mechanical Engineer) gave a mechanical designer's insight into healthcare projects,

looking at the design challenges faced during refurbishments and new builds.

Graham Stanton, chair of the Institute of Healthcare Engineering and Estate Management (IHEEM) in Wales reiterated the importance of professional registration before all the morning's speakers took part in a question and answer session, which had fantastic audience engagement.

After lunch Gail Lusardi, Nurse Consultant, Health Protection Programmes at Public Health Wales, kicked-off the afternoon session by looking at infection prevention in the built environment – collaborating for patient safety.

SES Senior Performance Standards Engineer (Ventilation) Dylan Evans gave a lively talk about isolation room standards surveys and an update on compliance with Welsh Health Circular (WHC) (2018): Negative pressure suites. Following the afternoon's speakers, the audience again had the opportunity to participate in a question and answer session.

Simon Russell, Head of Engineering, said:

*"The objective of the event is to enable us to provide compliant and safe mechanical engineering within the healthcare environment. As well as a great day for learning the event also provides a fantastic opportunity for engineering and estates staff to network."*

Supporting the day were a number of sponsors, including IHEEM, BSC, PPL Training, Rada, Pall Life Sciences, Fike, Barkell, Eastwood Park and BOC Medical. Most of the sponsors had stands at the event providing delegates with an excellent opportunity to discuss products and solutions aimed at improving the NHS estate in Wales.



## Feedback from the day:

*"An interesting and informative day. Very enjoyable and a good opportunity for networking."*

*"Gail Lusardi and Anthony Pitcher gave excellent presentations – very knowledgeable."*

*"Infection prevention was very interesting. Enjoyed the quiz by Dylan Evans that prompted some audience participation."*

*"Dylan very informative – all speakers relevant."*



**Simon Russell** | Head of Engineering  
Simon.Russell@wales.nhs.uk | 02920904100

## IHEEM conference

The Institute of Healthcare Engineering and Estate Management (IHEEM) Regional Conference and Exhibition took place in Cardiff on 5 September. The one-day event featured our director Neil Davies as Chairman for the afternoon session and Senior Environmental and Facilities Management Advisor Christopher Lewis as one of the main speakers (pictured).



This year's conference centred on the subject matter 'heatwave' and the effects rising temperature has on healthcare buildings.

SES's Senior Environmental and Facilities Management Advisor, Christopher Lewis, was well positioned to give a presentation on Decarbonisation challenges facing the NHS after working in this field for a number of years.

As SES is committed to playing its part in tackling Climate Change and has committed to reducing the carbon footprint of NHS premises Chris's session highlighted the work undertaken to put together a successfully sustainability performance report for NHS Wales.

With his extensive knowledge on this theme, Chris gave a well-received talk on the decarbonisation challenges facing the NHS.

Other expert speakers with vast amounts of experience, research and knowledge in this subject area shared their thoughts, research findings and expectations as well as looking at what the future and climate change may hold.

Topics covered included the affect climate change has had on healthcare, overheating of healthcare buildings, infection control and temperatures, medical gases as well as adapting healthcare buildings for climate change.

It was a day of interesting discussions, sharing good practice and an excellent learning opportunity.



**Christopher Lewis**  
Senior Environmental and Facilities Management Advisor  
Christopher.Lewis@wales.nhs.uk | 02920904096

# NWSSP Staff Recognition Awards

Recognition awards are a good way of employers openly showing their employees that they value what they do – this year's NHS Wales Shared Services Partnership (NWSSP) Staff Recognition Awards were held on 3 December 2019 in Cardiff. Over 100 staff, covering all divisions within the organisation were invited. All bar the Managing Director's Stars were invitees nominated by fellow team members, line managers or directors.

Ample pre-event coffee, tea, orange juice and water was enjoyed while staff mingled, creating a buzz before all sat down nervously waiting for the awards ceremony to begin.

As in previous years we were successful in getting a number of staff through to this final stage following an avalanche of entries from across NWSSP that required considerable deliberation by the shortlisting panel. Following a hearty buffet and rousing Christmas songs from the Matrix House Choir the awards commenced in earnest.



SES immediately made its mark with a string of runner-up awards for the Property Management team comprising Clive Ball, Head of Property, Jamie Evans, Assistant Technical Officer (ATO), Lowri Evans (ATO) and Mark Miller, Property Officer, who received the Highly Commended Award for Working Together (pictured above).

In the Environmental Sustainability category for their work in relation to promoting environmental sustainability across the NHS Martin Cooper, Business Manager, Chris Lewis, Senior Environmental and Facilities Management Advisor, and Mark Miller as part

of the ISO14001 Green Team for their work as environmental champions for NWSSP. Presenting the awards for this category was SES Director, Neil Davies (pictured below).



The best however was yet to come – Andrew Nash, Principal Property Surveyor, a winner in 2018, was a winner again for his role in the Imperial Park 5 (IP5) project team, well done Andrew! The final feather in the cap was Anthony Pitcher, Senior Fire Safety Advisor, being singled out as a Star for his outstanding contribution to fire safety and strategy and more specifically his national advisory role post-Grenfell (pictured below with Neil Frow, Managing Director of NWSSP).



Neil Davies, Director of SES, said:

*"Anthony's professional approach to dealing with a significant portfolio of fire related business in the past couple of years has been exemplary. He thoroughly deserves this recognition."*

For more photographs from the event, follow us on twitter @SES\_Information.



**Martin Cooper** | Business Manager  
[Martin.Cooper@wales.nhs.uk](mailto:Martin.Cooper@wales.nhs.uk) | 02920904085

# Staff news

Over the past couple of years SES has seen an unprecedented period of change on the staffing front. Thankfully it is now showing signs of slowing! We hope to be close to full establishment early in the new financial year.



Nigel

In early November we welcomed Nigel Bolan who joined us from Bridgend Council to take on the Authorising Engineer (Low Voltage) role. In September Lowri Evans, Senior Assistant Technical Officer (Property), left us to go back to University.

Enrolling on a project management degree course at the University of South Wales, Lowri is to continue to work within NHS Wales via the University's Network75 scheme that provides a unique opportunity to study and work. Morriston Hospital estates department have agreed to mentor Lowri through her five year degree, providing invaluable and relevant experience.



Ruchika

The opportunity to replace Lowri has been taken by Ruchika Tripathi who joined us in November along with Nia Morgan, who took up the vacant Property Surveyor role on the same day. Welcome to Ruchika and Nia!

Recruitment activity at varying stages is still ongoing; in respect of the Framework Manager, Principal Estates Advisor, and Principal Electrical Engineer vacancies.

These vacancies and others within NWSSP can be viewed [here](#). You can also view our vacancies, information on training events, estates related publications and notifications and other activities on our twitter feed: [@SES\\_Information](#).

## Technical publications

The following have been published by SES since April 2019.

### **Welsh Health Building Notes (WHBNs)**

Guidance documents for the planning and design of a range of healthcare buildings that provide specialist services in Wales.

*Issued to date in 2019/20:*

- [WHBN 04-01 – Adult Inpatient Facilities, Supplement 2 Negative Pressure Suites](#)  
(Published 24/06/19)

This document sets out practical guidance on how to provide safe, effective isolation facilities for infectious patients (source isolation) that are simple to use and meet the requirements of Welsh Government as outlined in WHC (2018) 033.

*Documents in progress:*

- WHBN 00-10 – Guidance on anti-ligature curtain rails

- WHBN 06-01 – Designing facilities for diagnostic imaging
- WHBN 10-01 – Surgical procedures
- WHBN 10-02 – Day Surgery
- WHBN 14-02 – Medicines management

### **Welsh Health Technical Memoranda (WHTMs)**

Documents which provide technical guidance on a wide range of specialist systems within the healthcare estate in Wales.

*No WHTMs issued to date in 2019/20*

*Documents in progress:*

- WHTM 03-01 – Specialist ventilation for healthcare premises.



**Jessica Morgan** | Information Officer  
[Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk](mailto:Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk) | 02920904118

# History Corner: Rookwood Hospital



Through its various guises, SES has had a long association with the health estate in Wales. It's difficult to predict the future of hospital construction in Wales, but the past can be found in our archives. We hope you find the following article of interest.

A flock of rooks flying over this historic building while it was under construction led to Rookwood acquiring its name. To this day rooks are still seen around the hospital.

Rookwood, located in Llandaff, Cardiff, was built in 1866 by MP and coal exporter and Colonel Sir Edward Hill, as a home for himself and his wife. It was Lady Hill who saw the rooks and subsequently christened the building. Monograms of the pair are still visible on the gate pillars and in the house.

The couple lived at the address until 1917 before the house was bought by another MP, Sir Lawrence Phillips, who gave it to the Ministry as a home for paraplegic patients, hence its use as a convalescent home began.

In 1932 Rookwood became a general hospital, treating service personnel injured during World War II.

The hospital became well known for its care and rehabilitation of patients with spinal and brain injuries as well as housing a geriatric day hospital, care facility and rehabilitation ward.

It now also houses a specialist centre for artificial limbs and is home to hospital radio Rookwood Sound as well as Cardiff's Parkinson's Disease services.

Last year, Cardiff and Vale University Health Board who own the hospital marked its incredible 100 year history with a number of celebratory events.

Now the services provided by the hospital are preparing to move to the University Hospital Llandough after facilities at Rookwood were described as being 'outdated'. It is planned that the move will be completed in 2020.



We hold an extensive picture library of Welsh hospital estates and we would welcome any photos which could expand our records. To submit photos or if you would like us to feature your hospital in a future edition of this newsletter, please contact:



**Jessica Morgan** | Information Officer  
[Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk](mailto:Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk) | 02920904118

# SES Quiz!



1 Which health board is named after the founder of the NHS?



2 Which hospital is named after this member of the Royal Family?



3 Can you name this hospital in West Wales named after another Royal Family member?




4 In which town is the Princess of Wales Hospital?



5 Which health board is named after this lady?



6 There's more than one Welsh hospital named after the patron saint of Wales, where is this one?



7 Which health board is named after a Welsh king?



8 What was the name of the opera singer whose Welsh home was turned into a tuberculosis hospital and named after her?



9 A community hospital located in Treorchy is named after this former MP – can you name it?



10 What was this former hospital in Rhydlafar near Pentyrch, Cardiff called?

*See the back cover for the answers!*

# Contact Specialist Estates Services

---



Those working within NHS Wales can either use our [services directory](#) or [staff list](#) to find the right person for the job, and those outside NHS Wales can look at the staff list on our [website](#).



Specialist Estates Services  
3rd Floor, Companies House  
Crown Way  
Cardiff  
CF14 3UB



02920 904118

## **Answers to the SES Quiz:**

1. Aneurin Bevan University Health Board
2. Prince Charles Hospital in Merthyr Tydfil
3. Prince Philip Hospital in Llanelli
4. Bridgend
5. Betsi Cadwaladr University Health Board
6. St David's Hospital in Cardiff
7. Hywel Dda University Health Board
8. Adelina Patti Hospital in Craig-y-Nos Castle, in the upper Swansea valley
9. Ysbyty George Thomas
10. Prince of Wales Hospital



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Partneriaeth  
Cydwasaethau  
Shared Services  
Partnership

# Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

Cyflwyniad gan  
**Neil Davies, Cyfarwyddwr**  
Gwasanaethau Ystadau  
Arbenigol



Yn aml, dyma'r adeg o'r flwyddyn pan fyddwn yn myfyrio ar y 12 mis blaenorol ac yn dathlu cyfraniadau'r rhai sydd wedi mynd yr ail filltir honno. Yng Ngwobrau Cydnabod Staff PCGC eleni, cydnabuwyd gwaith Gwasanaethau Ystadau Arbenigol ym maes diogelwch Tân ac eiddo, fel yr amlygir ar dudalen pedwar.

O ran diogelwch Tân, bydd blynnyddoedd lawer yn mynd heibio cyn i ni ganfod holl ganlyniadau trychineb Grenfell yn 2017, ond rhoddwyd pwysau sylweddol eisoes ar Wasanaethau Ystadau Arbenigol i ddarparu cymorth diogelwch Tân hollbwysig i helpu Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i ddelio â rhai o'r gwersi a ddysgwyd o'r drasiedi.

Mae mwyafrif y gwaith hwn wedi cwympo ar ysgwyddau Anthony Pitcher, Uwch Gynghorydd Diogelwch Tân Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, ac fel cymaint o staff ystadau a chyfleusterau pwrpasol eraill sy'n gweithio ledled GIG Cymru, pan ofynnir iddo i helpu, mae wedi ymateb i'r her. Nid yw cyfraniad Anthony wedi'i gyfyngu i GIG Cymru, mae hefyd wedi bod ar flaen y gad yn ymateb y DU i Grenfell, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr y Llywodraeth a'r GIG o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i nodi ffrydau gwaith a'r camau allweddol sydd eu hangen.

Ond efallai mai'r hyn sy'n esbonio pam y dylid cydnabod cyfraniad Anthony, yw ei fod wedi gallu darparu'r gefnogaeth hanfodol hon mewn ymateb i drychneb genedlaethol, wrth gynnal yr ystod lawn o wasanaethau diogelwch Tân o ddydd i ddydd i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru am o leiaf chwe mis, heb fod tîm diogelwch Tân llawn ar waith yn dilyn Gareth Lloyd yn symud i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Diolch byth bod y sefyllfa honno bellach wedi cael sylw ac mae Stuart Hanger wedi'i benodi. Mae wedi bwrw iddi o'i ddiwrnod cyntaf ac mae eisoes wedi profi ei hun yn ychwanegiad gwych i dîm diogelwch Tân Gwasanaethau Ystadau Arbenigol.

Os bydd angen cyngor a chefnogaeth ein tîm diogelwch Tân neu unrhyw un o arbenigwyr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol eraill arnoch, darperir rhestr lawn o rifau cyswllt ar y wefan.

Gobeithio y gnewch fwynhau Nadolig heddychlon ac iachus.  
**Regards, Neil**

[Neil.Davies4@wales.nhs.uk](mailto:Neil.Davies4@wales.nhs.uk) | 02920 905382

*Yn y rhifyn hwn...*

**Seminar Gwasanaethau  
Mecanyddol  
Tudalen 1**

**Cynhadledd IHEEM  
Tudalen 2**

**Gwobrau  
Cydnabyddiaeth  
Staff PCGC  
Tudalen 3**

**Newyddion staff  
Tudalen 4**

**Cyhoeddiadau  
technegol  
Tudalen 4**

**Y Gornel Hanes:  
Ysbyty Rookwood  
Tudalen 5**

**Cwis  
Gwasanaethau  
Ystadau  
Arbenigol!  
Tudalen 6**

# Seminar Gwasanaethau Mecanyddol: Gwneud Pethau'n Iawn



Cynhaliodd ein hadran Beirianeg ddiwrnod llwyddiannus arall o rannu gwybodaeth ac arferion gorau yn eu Seminar Gwasanaethau Mecanyddol diweddar.

Yn dwyn y teitl Gwneud Pethau'n Iawn, pwrpas y diwrnod oedd rhoi cyfle i staff y GIG wella eu gwybodaeth ac i rwydweithio wrth rannu eu harferion gwaith. Teithiodd mwy na 70 o gynrychiolwyr o bob bwrdd iechyd yng Nghymru i Faes Sioe Brenhinol Cymru yn Llanfair-ym-Muallt ar gyfer y seminar.

Gwnaeth Simon Russell, Pennaeth Peirianneg Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, esbonio'r agenda cyn i chwe siaradwr fynd ar y llwyfan i drafod amryw faterion amserol.

Yn gyntaf, amlinelloedd Dave Francis, Clerc Gwaith (Peirianneg) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ffordd ddiddorol o bontio'r bwllch rhwng y bwrdd iechyd a Gwasanaethau Ystadau Arbenigol o ran cydweithio.

Rhoddodd Nigel Baker, Peiriannydd Safonau Perfformiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, gyflwyniad a wnaeth i ni feddwl am wella cydgysylltu er mwyn sicrhau gosodiadau mecanyddol a pheirianneg llwyddiannus cyn i Anthony Pitcher, yr Uwch Gynghorydd Tân, siarad am bwysigrwydd hanfodol damperi Tân yn amgylchedd adeiledig gofal iechyd.

Rhoddodd Keith Thompson, Cyfarwyddwr Cyswllt AECOM (Peiriannydd Mecanyddol) fewnwelediad dylunydd mecanyddol i brosiectau gofal iechyd, gan edrych ar yr

heriau dylunio a wynebir yn ystod adnewyddu ac adeiladu adeiladau newydd.

Ailadroddodd Graham Stanton, cadeirydd y Sefydliad Peirianneg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau (IHEEM) yng Nghymru bwysigrwydd cofrestru proffesiynol cyn i holl siaradwyr y bore gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb, a gafodd ymgysylltiad gwych â'r gynulleidfa.

Ar ôl cinio, cychwynnodd Gail Lusardi, Nyrs Ymgynghorol, Rhaglenni Diogelu Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, sesiwn y prynhawn trwy edrych ar atal heintiau yn yr amgylchedd adeiledig - gan gydweithio er diogelwch cleifion.

Cyflwynodd Dylan Evans, Uwch Beiriannydd Safonau Perfformiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (Awyr) anerchiad bywiog am arolygon safonau ystafelloedd ynysu a diweddariad ar gydymffurfio â Chylchlythyr Iechyd Cymru (WHC) (2018): Ystafelloedd pwysau negyddol. Yn dilyn siaradwyr y prynhawn, cafodd y gynulleidfa gyfle eto i gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb.

Dyweddodd Simon Russell, Pennaeth Peirianneg:

*"Amcan y digwyddiad yw ein galluogi i ddarparu peirianneg fecanyddol gydymffurfiol a diogel yn yr amgylchedd gofal iechyd. Yn ogystal â diwrnod gwych o ddysgu mae'r digwyddiad hefyd yn gyfle gwych i staff peirianneg ac ystadau rwydweithio."*

Roedd nifer o noddwyr yn cefnogi'r diwrnod, gan gynnwys IHEEM, BSC, PPL Training, Rada, Pall Life Sciences, Fike, Barkell, Eastwood Park a BOC Medical. Roedd gan y mwyafrif o'r noddwyr stondinau yn y digwyddiad a roddodd gyfle gwych i'r cynrychiolwyr drafod cynhyrchion a datrysiau gyda'r nod o wella ystâd y GIG yng Nghymru.



## Cynhadledd IHEEM

Cynhaliwyd Cynhadledd ac Arddangosfa Ranbarthol y Sefydliad Peirianneg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau (IHEEM) yng Nghaerdydd ar 5 Medi. Roedd y digwyddiad undydd yn cynnwys ein cyfarwyddwr Neil Davies yn cadeirio sesiwn y prynhawn a bu Christopher Lewis, Uwch Gynghorydd Rheoli Amgylcheddol a Chyfleusterau yn un o'r prif siaradwyr (yn y llun).



Canolbwytiodd cynhadledd eleni ar y pwnc 'ton wres' a'r effeithiau y mae tymheredd yn codi yn eu cael ar adeiladau gofal iechyd.

Roedd Christopher Lewis Uwch Gynghorydd Rheoli Amgylcheddol a Chyfleusterau Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, mewn sefyllfa dda i roi cyflwyniad ar heriau Datgarboneiddio sy'n wynebu'r GIG ar ôl gweithio yn y maes hwn am nifer o flynyddoedd.

Adborth o'r diwrnod:

- "Diwrnod diddorol ac addysgiadol. Pleserus iawn a chyfle da i rwydweithio."
- "Rhoddodd Gail Lusardi ac Anthony Pitcher gyflwyniadau rhagorol - yn wybodus iawn."
- "Roedd y cyflwyniad am atal heintiau yn ddiddorol iawn. Wedi mwynhau'r cwis gan Dylan Evans a ysgogodd rywfaint o gyfranogiad gan y gynulleidfa."
- "Dylan yn addysgiadol iawn - pob siaradwr yn berthnasol."



**Simon Russell** | Pennaeth Peirianneg  
Simon.Russell@wales.nhs.uk | 02920904100

Gan fod Gwasanaethau Ystadau Arbenigol wedi ymrwymo i chwarae eu rhan wrth fynd i'r afael â Newid Hinsawdd ac wedi ymrwymo i leihau ôl troed carbon adeiladau'r GIG, amlygodd sesiwn Chris y gwaith a wnaed i lunio adroddiad perfformiad cynaliadwyedd llwyddiannus ar gyfer GIG Cymru.

Gan fod ganddo wybodaeth helaeth ar y thema hon, rhoddodd Chris anerchiad poblogaidd ar yr heriau datgarboneiddio sy'n wynebu'r GIG.

Rhannodd siaradwyr arbenigol eraill â llawer iawn o brofiad, ymchwil a gwybodaeth yn y maes pwnc hwn eu meddyliau, eu canfyddiadau ymchwil a'u disgwyliadau ynghyd ag edrych ar yr hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol a newid yn yr hinsawdd.

Roedd y pynciau dan sylw yn cynnwys yr effaith y mae newid yn yr hinsawdd wedi'i chael ar ofal iechyd, gorboethi adeiladau gofal iechyd, rheoli heintiau a thymheredd, nwyon meddygol yn ogystal ag addasu adeiladau gofal iechyd ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

Roedd yn ddiwrnod llawn trafodaethau diddorol, rhannu arferion da ac yn gyfle dysgu rhagorol.



**Christopher Lewis**  
Uwch Ymgynghorydd Rheoli'r Amgylchedd a Chyfleusterau  
Christopher.Lewis@wales.nhs.uk | 02920904096

# Gwobrau Cydnabyddiaeth Staff PCGC

Mae seremoniâu cydnabod yn ffordd dda i gyflogwyr ddangos yn agored i'w gweithwyr eu bod yn gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud - cynhaliwyd Gwobrau Cydnabod Staff Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) eleni ar 3 Rhagfyr 2019 yng Nghaerdydd. Gwahoddwyd dros 100 o staff, a oedd yn cynnwys pob adran yn y sefydliad. Gwahoddiadau a enwebwyd gan gyd-aelodau'r tîm, rheolwr Ilinell neu gyfarwyddwyr oedd pob un heblaw am Sêr y Rheolwr Gyfarwyddwr.

Mwynhawyd digon o goffi, te, sudd oren a dŵr cyn y digwyddiad wrth i'r staff gymysgu, gan greu cyffro cyn i bawb eistedd i lawr yn nerfus yn aros i'r seremoni wobrwyd ddechrau.

Yn debyg iawn i'r blynnyddoedd blaenorol, llwyddwyd i gael nifer o staff drwedd i'r cam olaf hwn yn dilyn llu o gynigion o bob rhan o PCGC a oedd angen cryn drafod gan y panel rhestr fer. Yn dilyn bwffe swmpus a chaneuon Nadoligaidd bywiog o Gôr Tŷ Matrix cychwynnodd y gwobrau o ddifrif.



Gwnaeth Gwasanaethau Ystadau Arbenigol eu marc ar unwaith gyda llinyn o wobrau yn ail ar gyfer y tîm Rheoli Eiddo yn cynnwys Clive Ball, Pennaeth Eiddo, Jamie Evans, Swyddog Technegol Cynorthwyo (ATO), Lowri Evans (ATO) a Mark Miller, Swyddog Eiddo, a dderbyniodd y Wobr Canmliaeth Uchel am Weithio Gyda'n Gilydd i gofrestru holl asedau tir rhydd-ddaliadol GIG Cymru - y corff cyhoeddus cyntaf yng Nghymru a Lloegr i gwblhau hyn (yn y llun uchod).

Yn y categori Cynaliadwyedd Amgylcheddol, am eu gwaith mewn perthynas â hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol ar draws PCGC, Martin Cooper, Rheolwr Busnes, Chris Lewis, Uwch Cyngorydd Rheoli'r Amgylchedd a Chyfleusterau, bu Mark Miller yn rhan o Dîm Gwyrdd ISO14001

am eu gwaith fel hyrwyddwyr amgylcheddol ar gyfer PCGC. Yn cyflwyno'r gwobrau ar gyfer y categori hwn oedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, Neil Davies (yn y llun isod).



Roedd y gorau eto i ddod - roedd Andrew Nash, Prif Syrfêwr Eiddo, enillydd yn 2018, yn enillydd eto am ei rôl yn nhîm prosiect Imperial Park 5 (IP5), da iawn Andrew! Aeth y clod olaf i Anthony Pitcher, Uwch Gyngorydd Diogelwch Tân, yn cael ei nodi fel Seren am ei gyfraniad rhagorol i ddiogelwch a strategaeth Tân ac yn fwy penodol am ei rôl gynghori genedlaethol ar ôl Grenfell (yn y llun isod gyda Neil Frow, Rheolwr Gyfarwyddwr NWSSP).



Dywedodd Neil Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol:

*"Mae dull proffesiynol Anthony o ddelio â phortffolio sylweddol o fusnesau sy'n gysylltiedig â thân yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhagorol. Mae'n haeddu'r gydnabyddiaeth hon yn fawr iawn."*

Am fwy o luniau o'r digwyddiad, dilynwch ni ar twitter [@SES\\_Information](#).



**Martin Cooper** | Rheolwr Busnes  
[Martin.Cooper@wales.nhs.uk](mailto:Martin.Cooper@wales.nhs.uk) | 02920904085

# Newyddion staff

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae Gwasanaethau Ystadau Arbenigol wedi gweld cyfnod o newid heb ei debyg o ran staffio. Diolch byth ei fod bellach yn dangos arwyddion o arafu! Gobeithiwn fod yn sefydliad llawn yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.



Ddechrau mis Tachwedd gwnaethom groesawu Nigel Bolan a ymunodd â ni o Gyngor Penybont ar Ogwr i ymgymryd â rôl y Peiriannydd Awdurdodi (Foltedd ISEL). Ym mis Medi, wnaeth Lowri Evans, Uwch Swyddog Technegol Cynorthwyol (Eiddo) ein gadael ni er mwyn mynd yn ôl i'r Brifysgol.

Gan gofrestru ar gwrs gradd rheoli prosiect ym Mhrifysgol De Cymru, bydd Lowri yn parhau i weithio o fewn GIG Cymru trwy gynllun Network75 y Brifysgol sy'n rhoi cyfle unigryw i astudio a gweithio. Mae adran ystadau Ysbyty Treforys wedi



cytuno i fentora Lowri trwy ei gradd pum mlynedd, gan ddarparu profiad amhrisiadwy a pherthnasol.

Gwnaeth Ruchika Tripathi gymryd lle Lowri ym mis Tachwedd ynghyd â Nia Morgan, a gymerodd rôl y Syrfêwr Eiddo gwag ar yr un diwrnod. Croeso i Ruchika a Nia!

Mae gweithgarwch reciwtio ar wahanol gamau yn parhau; mewn perthynas â swyddi gwag y Rheolwr Fframwaith, y Prif Gynghorydd Ystadau, a'r Prif Beiriannydd Trydanol.

Gellir gweld y swyddi gwag hyn a swyddi eraill yn PCGC [yma](#). Gallwch hefyd weld ein swyddi gwag, gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddi, cyhoeddiadau a hysbysiadau cysylltiedig ag ystadau a gweithgareddau eraill ar ein ffrwd twitter: [@SES\\_Information](#).

## Cyhoeddiadau technegol

Mae'r canlynol wedi cael eu cyhoeddi gan y Gwasanaethau Ystadau Arbenigol ers mis Ebrill 2019.

### Nodiadau Adeilad Iechyd Cymru (WHBNs)

Canllawiau ar gyfer cynllunio a dylunio ystod o adeiladau gofal iechyd sy'n darparu gwasanaethau arbenigol yng Nghymru.

#### Cyhoeddwyd hyd yma yn 2019/20:

- **WHBN 04-01 - Cyfleusterau i Gleifion Mewnol sy'n Oedolion, Atodiad 2: Ystafelloedd Pwysau Negyddol** (Cyhoeddwyd 24/06/19)

Mae'r ddogfen hon yn nodi canllawiau ymarferol ar sut i ddarparu cyfleusterau ynysu diogel ac effeithiol i gleifion heintus (ynysu ffynhonnell) sy'n syml i'w defnyddio ac sy'n cwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn WHC (2018) 033.

#### Dogfennau ar y gweill:

- WHBN 00-10 – Canllawiau ar reiliau llenni gwrrh-rwymyn

- WHBN 06-01 – Dylunio cyfleusterau ar gyfer delweddu diagnostig
- WHBN 10-01 – Gweithdrefnau llawfeddygol
- WHBN 10-02 – Llawfeddygaeth Ddydd
- WHBN 14-02 – Rheoli meddyginaethau

### Memoranda Technegol Iechyd Cymru

Mae'r rhain yn gyfres o ddogfennau sy'n rhoi arweiniad technegol ynghylch ystod eang o systemau arbenigol yn ystâd iechyd Cymru.

*Ni chyhoeddwyd unrhyw Femoranda Technegol Iechyd Cymru hyd yma yn ystod 2019/20*


#### Dogfennau ar y gweill:

- Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 03-01 – Awyru arbenigol ar gyfer adeiladau gofal iechyd.
- 



**Jessica Morgan** | Swyddog Gwybodaeth  
[Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk](mailto:Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk) | 02920904118

# Y Gornel Hanes: Ysbyty Rookwood



Ar wahanol ffurffiau dros y blynnyddoedd, mae Gwasanaethau Ystadau Arbenigol wedi bod â chysylltiad hirsefydlog â'r ystâd iechyd yng Nghymru. Mae'n anodd rhagweld dyfodol adeiladu ysbytai yng Nghymru, ond mae'r gorffennol wedi'i gofnodi yn ein harchifau. Rydym yn gobeithio y bydd yr erthygl ganlynol o ddiddordeb ichi.

Arweiniodd haid o frain yn hedfan dros yr adeilad hanesyddol hwn yn ystod ei adeiladu at ei alw'n Rookwood. Gellir gweld brain hyd heddiw yng nghyffiniau'r ysbyty.

Adeiladwyd Rookwood yn Llandaf, Caerdydd, ym 1866 gan yr AS a'r allforiwr glo Cynol Syr Edward Hill, yn gartref iddo'i hun a'i wraig. Yr Arglwyddes Hill a welodd y brain ac a fedyddiodd yr adeilad wedi hynny. Mae monogramau o'r pâr i'w gweld o hyd ar bileri'r giât ac yn y tŷ.

Roedd y cwpl yn byw yn y cyfeiriad tan 1917 cyn i'r tŷ gael ei brynu gan AS arall, Syr Lawrence Phillips, a'i roi i'r Weinyddiaeth fel cartref i gleifion paraplegig, a dyna pam y dechreuwyd ei ddefnyddio yn gartref ymadfer.

Ym 1932 daeth Rookwood yn ysbyty cyffredinol, gan drin personél yn y lluoedd arfog a anafwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Daeth yr ysbyty yn adnabyddus am ofalu am ac adfer cleifion ag anafiadau i'r asgwrn cefn a'r ymennydd ynghyd â chartref ysbyty dydd geriatreg, cyfleuster gofal a ward adfer.

Bellach mae hefyd yn gartref i ganolfan

arbenigol ar gyfer aelodau artiffisial ac mae'n gartref i Rookwood Sound, sef radio yn yr ysbyty, yn ogystal â gwasanaethau Clefyd Parkinson's Caerdydd.

Y llynedd, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n berchen ar yr ysbyty ei hanes 100 mlynedd anhygoel trwy gynnwl nifer o ddigwyddiadau i ddathlu.

Bellach, mae'r gwasanaethau a ddarperir gan yr ysbyty yn paratoi i symud i Ysbyty Athrofaol Llandochau gan fod cyfleusterau Rookwood wedi cael eu disgrifio'n 'hen ffasiwn'. Y bwriad yw y bydd y symud yn cael ei gwblhau yn 2020.




Mae gennym lyfrgell luniau helaeth o ystadau ysbyty yng Nghymru a byddem yn croesawu unrhyw luniau a allai ehangu ein cofnodion. I gyflwyno lluniau, neu os hoffech i ni gynnwys eich ysbyty mewn rhifyn o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, cysylltwch â:



**Jessica Morgan** | Swyddog Gwybodaeth  
[Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk](mailto:Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk) | 02920904118

# Cwis Gwasanaethau Ystadau Arbenigol!



1 Pa fwrdd iechyd sydd wedi'i enwi ar ôl sylfaenydd y GIG?



2 Pa ysbty a enwir ar ôl yr aelod hwn o'r Teulu Brenhinol?



3 A allwch chi enwi'r ysbty hwn yng Ngorllewin Cymru a enwir ar ôl aelod arall o'r Teulu Brenhinol?



4 Ym mha dref mae Ysbyty Tywysoges Cymru?



5 Pa fwrdd iechyd sydd wedi'i enwi ar ôl y ddynes hon?



6 Mae mwy nag un ysbty o Gymru wedi ei enwi ar ôl nawddsant Cymru, ble mae hwn?



7 Pa fwrdd iechyd sydd wedi'i enwi ar ôl brenin o Gymru?



8 Beth oedd enw'r gantores opera y trowyd ei chartref yng Nghymru yn ysbty twbercwlosis a'i henwi ar ei hôl hi?



9 Mae ysbty cymunedol wedi'i leoli yn Treorchy wedi'i enwi ar ôl y cyn AS hwn - a allwch chi ei enwi?



10 Beth yw enw'r hen ysbty hwn yn Rhydlafar ger Pentyrch, Caerdydd?

Gweler y clawr cefn am yr atebion!

# Cysylltu â Gwasanaethau Ystadau Arbenigol



Gall y rhai sy'n gweithio yn GIG Cymru ddefnyddio naill ai ein **cyfeiriadur gwasanaethau** neu **restr o staff** i ddod o hyd i'r person iawn i wneud y gwaith, a gall y rhai nad ydynt yn gweithio i GIG Cymru ddefnyddio'r rhestr o staff ar ein **gwefan**.



Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

3ydd llawr, Tŷ'r Cwmnïau

Ffordd y Goron

Caerdydd

CF14 3UB



02920 904118

## ***Yr atebion i'r cwis Gwasanaethau Ystadau Arbenigol:***

1. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
2. Ysbyty'r Tywysog Charles, Merthyr Tudful
3. Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli
4. Pen-y-Bont ar Ogwr
5. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
6. Ysbyty Dewi Sant, Caerdydd
7. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
8. Ysbyty Adelina Patti yng Nghastell Craig-y-Nos, yn nyffryn uchaf Abertawe
9. Ysbyty George Thomas
10. Ysbyty Tywysog Cymru



**GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES**

Partneriaeth  
Cydwasaethau  
Shared Services  
Partnership